# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 29/09/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Cefnogaeth i Gymunedau

***11. Nick Ramsay****: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymunedau. OAQ(3)1321(SJL)*

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gefnogi cymunedau ac mae nifer o raglenni a strategaethau sy'n canolbwyntio ar helpu cymunedau i gyflawni eu hamcanion. Mae enghreifftiau o'm portffolio i yn cynnwys y rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a'r gronfa datblygu swyddfeydd post.

### Trydydd Cynulliad

***12. Darren Millar:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1325(SJL)*

**Carl Sargeant:** Bydd rhoi'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) ar waith yn cryfhau strwythurau a gweithrediadau llywodraeth leol ar bob lefel yng Nghymru. Byddwn yn parhau i hybu cymunedau diogel a chynaliadwy gan hybu cydlyniant cymunedol gwell a lleihau anghydraddoldeb dros weddill tymor y trydydd Cynulliad.

### Gwasanaethau Tân ac Achub

***13. Chris Franks:*** *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghanol De Cymru. OAQ(3)1307(SJL)*

**Carl Sargeant:** Cwrddais â phrif swyddog tân Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar 22 Medi i drafod cynllun lleihau risg yr awdurdod ar gyfer 2011-12.

### Arian Llywodraeth Leol

***14. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arian llywodraeth leol yng Nghymru. OAQ(3)1315(SJL)*

**Carl Sargeant:** Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am bennu a chynnal cyllideb sy'n sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel yn y ffordd fwyaf effeithlon a chost-effeithiol bosibl i'w etholaeth leol. Mae cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad i lywodraeth leol yng Nghymru wedi cynyddu 67 y cant ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Grantiau Awdurdodau Lleol**

***15. Eleanor Burnham:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y nifer sy'n cael grantiau awdurdodau lleol yng Nghymru. OAQ(3)1313(SJL)*

**Carl Sargeant:** Tua £725 miliwn yw cyfanswm grantiau penodol awdurdodau lleol ar gyfer 2010-11. Mae'r dibenion, y telerau a'r amodau yn ogystal â'r nifer sy'n cael y grantiau'n amrywio ac maent yn cael eu monitro o fewn y meysydd polisi unigol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Adeiladau Ysgolion

***12. Nick Ramsay:*** *Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod holl adeiladau ysgolion Cymru yn addas i'r diben. OAQ(3)1479(CEL)*

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i wella cyflwr adeiladau ysgolion yng Nghymru a'u gwneud yn fwy addas. Nodwyd ein bwriad i sicrhau buddsoddiadau cyfalaf sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn y rhaglen ysgolion ar gyfer y 21ain ganrif a lansiwyd ar 16 Mawrth 2010. Mae cyllid trosiannol o £338.6 miliwn eisoes wedi'i neilltuo i helpu awdurdodau lleol.

### Dechrau'n Deg

***13. Veronica German*****:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Dechrau'n Deg. OAQ(3)1468(CEL)*

**Leighton Andrews:** Nod Dechrau'n Deg yw gwella'r canlyniadau tymor hwy i blant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae 'Gwerthusiad Interim Dechrau'n Deg' wedi cadarnhau bod y rhaglen eisoes yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant hyn a'u teuluoedd.

### Blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad

***14. Paul Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1480(CEL)*

**Leighton Andrews:** Nid yw fy mlaenoriaethau wedi newid ers cyhoeddi 'Cymru'n Un' ond mae gennyf fesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Yr wyf hefyd yn gobeithio symud arian o gostau cymorth i'r rheng flaen, trwy'n hadolygiad o adnoddau rheng flaen, er mwyn sicrhau bod canran uwch o'r cronfeydd yn mynd yn uniongyrchol i'r dysgwyr eu hunain.

### Addysg Uwch

***15. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru. OAQ(3)1489(CEL)*

**Leighton Andrews:** Cydweithio, cydweithio a chydweithio: Mae'n rhaid i brifysgolion Cymru roi eu hunain mewn sefyllfa sy'n eu galluogi i ddiwallu anghenion dysgu'r unfed ganrif ar hugain. Bydd yn rhaid iddynt weithio ar raddfa fawr a chyflawni màs critigol, gan ddenu dysgwyr newydd drwy ddulliau cyflenwi newydd, a chanolbwyntio ar ymchwil arloesol ar y cyd. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n arwain ar y gwaith hwn.